

Detholiad o Salmau gan Lewis Valentine yn gweld golau dydd eto

Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer o hen destunau Beiblaidd wedi gweld golau dydd eto, a hynny yn bennaf oherwydd brwdfrydedd Arfon Jones yn chwilota ac yna'n trefnu i ddigido argraffiadau a gyhoeddwyd dros y canrifoedd, ond sydd wedi hen ddiflannu o gylchrediad cyffredin.

Bu Arfon yn cydweithio yn agos iawn â Neil Rees o Gymdeithas y Beibl, gan drefnu i deipio a gwirio'r testunau drwy waith Mission Assist. Mae ein dyled fel Cymry yn fawr i Neil gan iddo wneud cymaint o waith yn datblygu Ap Beibl yn Gymraeg er mwyn rhoi mynediad hylaw i'r holl fersiynau gwahanol sydd bellach ar gael. Mae'r rhain wedi eu cyhoeddi ar wefan [Global Bible](#) a hefyd yn rhan o lyfrgell [YouVersion](#).

Bu Aled Davies yn holi Arfon Jones am y gwaith hwn, gan ofyn iddo hefyd rannu ychydig o wybodaeth am waith Lewis Valentine â ni.

Esbonia Arfon fod sawl fersiwn o'r Beibl wedi ymddangos ers cyhoeddi Beibl William Morgan yn 1588, a gwnaed ymgais i gynnwys y fersiynau gwahanol hyn ar Ap Beibl. Ymhlith y cyfieithiadau mwy diweddar mae cyfieithiad o'r Testament Newydd a phedwar o lyfrau'r Hen Destament gan Thomas Briscoe (1894), testun y pedair efengyl a gyhoeddwyd dan yr enw *Y Ffordd Newydd* yn 1971, ac argraffiad o Efengyl Mathew a gyhoeddwyd yn 1961 gan Islwyn Ffowc Elis.

Yr ychwanegiad diweddaraf yw'r casgliad hwn o 41 o salmau gan Lewis Valentine. Rydym yn gyfarwydd â'i emyn 'Dros Gymru'n gwlad', ond dydy ei waith yn cyfieithu'r salmau ddim mor adnabyddus. Mae fersiynau eraill o'r salmau eisoes ar Ap Beibl, gan gynnwys *Salmau Salesbury* (1567), *Salmau Dafydd Broffwyd* gan Edward Kyffin (1603), *Salmau Cân Edmwnd Prys* (1621), *Twr Dafydd, sef Salmau Dafydd ar Gân* Gwilym Hiraethog (1875), *Y Psallwyr*, sef Salmau Cân Morris Williams ('Nicander', 1850) ac yna *Salmau Cân Newydd* gan Gwynn ap Gwilym, a gyhoeddwyd yn 2008. Un o fanteision Ap Beibl yw bod modd gweld y salmau hyn ochr yn ochr er mwyn eu cymharu.

Yn ystod ei gyfnod yn weinidog yn Llanduduno, cyfieithodd Lewis Valentine ddetholiad o 41 o salmau ar gyfer eu cyhoeddi. A phrin ydy'r bobl sy'n sylweddoli iddo ennill gradd dosbarth cyntaf yn yr ieithoedd Semitig ym Mangor, a mynd ymlaen wedi hynny i ennill gradd MA am ei draethawd ar gyfieithiadau William Morgan a Richard Parry o Lyfr Job.

Ydych chi'n defnyddio ap.beibl?



Meddai Arfon, 'Mae ei gyfieithiad o'r salmau yn dangos ei feistrolaeth o'r iaith Hebraeg, er bod pethau fel mân newidiadau i'r testun gwreiddiol, lleoliad rhai adnodau a'i argyhoeddiadau ynglŷn â phryd y cafodd rhai o'r salmau eu hysgrifennu yn adlewyrchu dylanwad uwch-feirniadaeth a thueddiadau diwinyddol ei gyfnod. Ac eto, wrth drafod dyddiad cyfansoddi rhai salmau mae'n dweud, "Yr ydys heddiw yn barotach i gydnabod hynafiaeth llawer Salm ac nid yw beirniadaeth heddiw mor chwynr ag ydoedd genhedlaeth yn ol."

Yn y Rhagarweiniad fe ddywed, 'Wrth gyfieithu ni fûm yn "rhy syth i wrthod na rhy hyblyg i oddef cyfnewid" y testun gwreiddiol, ond lle bo'r testun hwnnw yn anobeithiol o lwgr rhoddais ffrwyn i'm ffansi a'm dychymyg yn hytrach na'i adael heb gynnig ei gyfieithu."

Ar ddiwedd y llyfr mae nodiadau ar bob un o'r 41 salm, ynghyd â rhai cwestiynau a phynciau i'w trafod. Fe'i cyhoeddwyd gan Wasg Llston ym mis Ebrill 1936, a'i argraffu dan y teitl *Detholiad o'r Salmau*. Cafodd ei ddigido gan Gymdeithas y Beibl yn ystod 2020 ac mae bellach ar gael ar y we. Yno hefyd mae cyfieithiad Valentine o 'Y Wraig

Rinweddol' yn Diarhebion 31, a draddodwyd ganddo fel rhan o deyrnged yn angladd mam yr awdures Kate Roberts ym 1944. Gellir eu gweld ar wefan Global Bible: <https://cymraeg.global.bible/bible/11bc8fb0f0c3cd03-01/PSA.1Salm.23>.

Ganed Lewis Edward Valentine yn Llanddulas, Conwy, ym 1893 a bu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr gydol ei oes ac yn olygydd *Seren Cymru* am bron chwarter canrif, o 1951 hyd 1975. Roedd yn un o sylfaenwyr Plaid Cymru, yn llywydd cyntaf y Blaid a'i hymgeisydd seneddol cyntaf yn etholiad 1928. Ym 1936, roedd yn un o'r tri a hawliodd gyfrifoldeb am losgi ysgol fomio'r RAF ym Mhenyberth, ar Benrhyn Llŷn. Fe gafodd Valentine, Saunders Lewis a D J Williams eu dedfrydu yn yr Old Bailey i naw mis o garchar yn Wormwood Scrubs. Bu farw yn 92 oed ym Mae Colwyn ym 1986.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Detholiad o Salmau gan Lewis Valentine yn gweld golau dydd eto (parhad o dudalen 1)

Mae cyfrol Arwel Vittle, *Valentine*, a gyhoeddwyd gan Wasg y Lolfa, yn gofiant teilwng iddo.

Dyma'r 'Drydedd Salm ar Hugain', yng ngeiriau Lewis Valentine.

Salm Dafydd

I. Iehofa'r Bugail



Iehofa sydd yn fy mugeilio: nid oes angen dim arnaf.
Gwna i mi orwedd mewn dolydd glaswelltog;
Tywys fi at ddyfroedd gorffwys.
Y mae'n adnewyddu fy enaid.

II. Iehofa'r Arweinydd

Y mae'n fy arwain ar hyd llwybrau union, er mwyn Ei enw.
A phe rhodiwn ar hyd geunant tywyll, du,
Nid ofnaf ddim niwed; canys yr wyt Ti gyda mi.
Dy bastwn a'th ffon Di yw fy nghysur.

III. Iehofa'r Gwestywr

Yr wyt yn taenu bwrdd llawn o'm blaen,
Yng ngŵydd fy ngwrthwynebwy; Iraist fy mhen ag olew,
Fy nghwpan sy'n llifo trosodd.
Yn ddiau y mae daioni a chariad
Yn erlid ar fy ôl holl ddyddiau fy mywyd,
A phreswyliaf yn nhŷ Iehofa
Trwy gydol fy oes.



Meddai Valentine am y salm:

Y gân grefyddol fwyaf poblogaidd yn mynegi amddiffyn sicr Iehofa. Ofer ydyw ceisio mesur a phwyso ei gafael hi ar fywydau dynion erioed. Cytunir bellach nad 'Y Bugail' ydyw'r unig ddarlun o Dduw sydd yma, ond darlunnir Ef hefyd fel Arweinydd a ddug ei gydymaith i ddiogelwch drwy geunentydd enbyd a thywyll. Yn y pennill olaf Duw ydyw'r Gwestywr Mawr a'r Gwestywr perffaith nad oes terfyn ar ei groeso.

PYNCIAU I'W TRAFOD:

1. Ceisiwch roddi cyfrif am afael y Salm hon ar galonau dynion erioed.
2. Pa un o'r tri darlun ydyw'r hyfrytaf gennych — Duw fel Bugail, Duw fel Arweinydd, a Duw fel Gwestywr? Pa un sydd fwyaf gwir yn eich profiad personol chwi?
3. Ystyriwch syniad beiddgar yr adnod olaf, sef y syniad o Dduw yn ERLID dyn fel y mae gelyn yn erlid, ond â daioni a chariad.

O'r Swyddfa

Mae'n furiad gennym yn *Cenn@d* i gynnwys neges gan Ysgrifenyddion Cyffredinol y ddau enwad. Tro Ysgrifenydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw hi y tro hwn.

Wrth inni fyfyrto eto ar ŵyl y Pasg, a chodi i gyfnod newydd eto wedi ein hatgoffa o rym a buddugoliaeth Iesu, rydym yn parhau i wneud hynny mewn amgylchiadau sy'n ansicr iawn. Mae nifer o'n heglwys bellach yn cymryd camau tuag at sicrhau cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac amryw wedi gwneud hynny dros y Pasg. Nid fod pawb, o bell ffordd, wedi gweld hyn fel y cam priodol ar yr adeg yma, gyda llawer yn parhau i edrych am fwy o sicrwydd ei bod yn ddiogel cyn mentro. Mae'n siŵr y byddwch yn gweddïo'n lleol, ac yn gweddïo dros ein heglwysy'n gyffredinol, y bydd y gynulleidfa a'r arweinwyr yn symud gyda'i gilydd wrth wneud y penderfyniadau hyn.

Ystadegau ac arian

Mae Pwyllgor Gwaith Bwrdd y Gymanfa bellach wedi cael golwg ar gyfrifon drafft 2020, a'r un pryd wedi bod yn ystyried y patrwm cychwynnol sy'n dod i'r golwg o ran yr adroddiadau ystadegol am 2020. Yng ngoleuni hyn, yn eu cyfarfod diwethaf fe benderfynwyd y byddem yn estyn gostyngiad pellach i'n heglwysy o ran y Cyfraniad Gweinidogaeth a Chenhadaeth,

a bydd mwy o fanylion am hyn yn cael eu hanfon yn uniongyrchol atoch dros yr wythnosau nesaf. Mi fydd hyn yn cael ei weinyddu gan yr Adran Ariannol, felly, nid oes angen i drysoryddion i wneud dim i sicrhau'r ad-daliad.

Camau gobeithiol

Da yw adrodd, er gwaethaf yr anawsterau presennol, fod tair gofalaeth bellach wedi eu ffurfio, gyda'r Parch Anna Jane Evans wedi ei chadarnhau fel gweinidog yng nghylch Caernarfon a'r Waunfawr, y Parch Robert Parry wedi ei gadarnhau fel gweinidog yng nghylch Lerpwl a Manceinion, ac Emyr Williams wedi ei alw i fod yn weinidog ar Ofalaeth y Gwendraeth. Yn ychwanegol, mae yna ofalaeth gydenwadol wedi ei chadarnhau yng nghylch Dyffryn Conwy.

Y Gymdeithas a'r Gymanfa

O ran edrych ymlaen, cafwyd cadarnhad o ddyddiadau'r Gymdeithasfa, gyda'r Gogledd yn cyfarfod ar 13 Gorffennaf, y Dwyrain ar y 27ain a'r De ar y 29ain. Nid ydym yn gwybod eto a fydd y cyfarfodydd yn gyfarfodydd rhithiol yn gyfan gwbl, ond gobeithiwn y bydd cyfle i ymuno wyneb yn wyneb neu dros Zoom. Gobeithir y bydd ordeinio yn y Gymdeithasfa yn y De a'r Dwyrain, yn ddarostyngedig i sicrhau cyfarfod rheolaidd o'r Cyfarfod Blaenoriaid. Yn yr un modd, dynodwyd 20-21 Medi fel dyddiadau posibl ar gyfer y Gymanfa.

Cysgod Cofid a'r dyfodol newydd

Wrth inni edrych ymlaen, daeth yn amlwg bellach y bydd y dyfodol yn wahanol, petai ddim ond am y ffaith y bydd angen i ni fel enwad barhau i fyw gyda realiti Cofid, naill ai'r haint presennol, neu un tebyg. Mae yna waith cychwynnol wedi ei wneud ar strategaeth o ran ein gweinyddiaeth fel Cymanfa, a gobeithiwn rannu hwn mor eang â phosibl wedi i'r drafft cael ei gytuno.

Rydym yn sicr fel Cymanfa na ddylid ymdrechu i geisio ail-greu'r gorffennol. Mae ein sefyllfa ar lawr gwlad mor wahanol, ein hystadegau yn dra gwahanol, a disgwyliadau pobl o beth ellir ei wneud ar lein, beth ellir ei wneud mewn llai o gyfarfodydd, a beth y dylai eglwysy fedru ei wneud eu hunain yn lleol.

Ystyriaeth arall yw'r angen i roi ynni i mewn i gydweithio, cyd-drefnu a chydgenhadu ag enwadau eraill. Eisoes cafwyd sgwrs gychwynnol gydag Esgob Tyddewi, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn digwydd rhwng swyddogion yr enwadau Cymraeg. Fel y nodais rai wythnosau yn ôl, gobeithio'n wir fod y cyhoeddiad hwn yn flaenffwrth cydweithrediad eciwmenaidd. Mae cyhoeddi *Cenn@d*, yn sicr, yn arwyddo ein dyhead i gydgerdded wrth i ni gamu i'r dyfodol.

Meirion Morris
Ysgrifenydd Cyffredinol

Prosiect Pasg yr Egin Gwyrdd

Fel arfer, o gwmpas gwyliau'r Pasg, fe fydd Pwyllgor Egin Gwyrdd Cymanfa Bedyddwyr Penfro'n trefnu 'Noson Gymdeithasol' ym Maenordy Llwyngwair, Trefdraeth. Er mai trefnu gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc y sir fydd y pwyllgor yn bennaf, mae'r noson hon yn un sy'n agored i bob oed ac yn denu tyrfa dda o bobl ynghyd yn ddi-ffael. Wrth reswm, roedd dod ynghyd eleni'n amhosibl – fel llynedd. Ond nid oedd angen pryderu: roedd gan ysgrifenyddes ddiwyd y pwyllgor, Mrs Siân Elin Thomas, syniad ardderchog, a phan gyfarfu'r pwyllgor ar Zoom cafodd sêl bendith yr aelodau i fwrw ymlaen â'r cynlluniau.

O ganlyniad, bu plant a phobl ifanc o ysgolion Sul Blaenffos; Cyloch Carn Inqli; Seion, Crymich, ac Ebeneser Dyfed, yn brysur yn cyflwyno myfyrdodau yn eu cartrefi ar gyfer pob diwrnod yn ystod 'Yr Wythnos Fawr' yn arwain i fyny at y Pasg. Roedd gan bob ysgol Sul ryw gyfraniad i'w gyflwyno ym mhob un o'r oedfaon byr a ymddangosodd ar YouTube a'r cyfryngau cymdeithasol, gan ddechrau gyda Sul y Blodau.

Ary dydd Llun cafwyd hanes glanhau'r deml; dysgu'r bobl yn y deml ar y dydd Mawrth; Jwdas yn cynllwynio yn erbyn Iesu ar y dydd Mercher; y swper olaf ddydd Iau; tristwch dydd Gwener y Grogllith; distawrwydd dydd Sadwrn; ac yna gorfoledd a dechrau newydd y Pasg. Pleser o'r mwyaf wedyn oedd i'r cyfan gael ei roi at ei gilydd i greu un oedfa gyflawn a rannwyd ar y cyfryngau cymdeithasol ac a anfonwyd allan drwy gyfrwng e-byst ar ddydd Llun y Pasg.

Ysgrifennwyd y sgrïptiau a'u dosbarthu i athrawon yr ysgolion Sul gan Siân Elin Thomas, aelod yn Seion, Crymich, a myfyrwraig ddiwinyddol sy'n cael ei hyfforddi ar y cyd gan y Coleg Gwyn, Bangor, a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd. Hithau hefyd fu'n rhoi trefn ar y clipiau i gyd ar ôl eu dychwelyd iddi, gan greu wyth oedfa fer i'w dangos yn ddyddiol, ac un oedfa gyflawn ar y diwedd. Mae dyled y pwyllgor yn fawr iawn iddi am gynllunio a threfnu.

Diolchir hefyd i athrawon yr ysgolion Sul am rannu a dosbarthu'r gwaith i'r plant, ac i bob un o'r plant a'u rhieni am fod mor ufudd i'r cais i ffilmio'r clipiau a'u hanfon ymlaen. Anodd mesur na dirnad y pleser a'r fendith a gafodd pawb wrth wyllo'r genhedlaeth ifancaf yn ein heglwysi yn cyfleu mor naturiol, ac eto mor ddiymhongar, stori'r Pasg. Os hoffech chi rannu'r fendith honno, ewch i: [Wythnos y Pasg](#).

Byddai Dorcas yn falch o'ch cwmni ...

Astudiaeth y gogledd:

nos Lun am 7 – Ebrill 19, 26; Mai 10, 24;
Mehefin 7, 21; Gorffennaf 5

Astudiaeth y de:

prynawn Gwener am 1.30 –
Ebrill 23, 30; Mai 15, 29; Mehefin 11, 25;
Gorffennaf 9

MERCHED GYFARFU Â IESU A'U NEGES I NI HEDDIW

7 astudiaeth Feiblaidd dros Zoom

Cysylltwch â Sarah neu Carys am y linc Zoom:

sarah.morris@ebcpcw.cymru
carys.davies@ebcpcw.cymru



**CROESO
CYNNES I
YMUNO Â NI
DROS DYMOR
YR HAF**

Trefnwyd gan Raglen Dorcas,
Is-bwyllgor y Chwiorydd

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

ATHROFA PADARN SANT ST PADARN'S INSTITUTE

GOFAL EIN GWINLLAN

Cyfes o weminarau am gyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'r Gymraeg, ei llên a'i diwylliant.

Rhan 2: 24 Ebrill, 10.00 - 11.30am

Pynciau'r sesiwn

Carol a Chwndid
Yr Athro E. Wyn James,
Athro Emeritws yn Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd

Y Ficer Prichard a Cannwyll y Cymry
Yr Athro Christine James,
Athro Emerita yn Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe

Gallwch gofrestru ar gyfer y weminar yma:
<https://bit.ly/3sA3YBs>

Cynhelir y sesiynau yn Gymraeg, gyda chyfieithu ar-y-pryd ar gael hefyd.

Gweinidog newydd i ofalaeth newydd Gororau'r Gogledd

Ganed Robert Parry yn Llanelwy, yr hynaf o dri o blant, a'i fagu ar ffarm y Fachell, ar Forfa Rhuddlan. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Dewi Sant, y Rhyl, ac yna yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy. Cartref ysbrydol y teulu oedd capel bach y Morfa (MC), a chofiaf ei weld yno yn fachgen deuddeg oed yn gwrando arnaf ar bnawn Sul. Yn 16 oed, cafodd ei dderbyn yn aelod gan y diweddar Barchedig Hugh Williams, Rhuddlan, a dod yn organydd fel ei dad, oedd hefyd yn flaenor.

Mewn seiat ar noson waith yn y capel bach, teimlodd alwad i'r Weinidogaeth, a chofiaf y llawenydd yn ein plith fel gweinidogion fod bachgen ifanc yn mentro i'r 'barchus, arswydus swydd'. Traddododd ei bregeth gyntaf yn 17 oed, a bu galw cyson amdano ledled Cymru a thu hwnt ar hyd y blynyddoedd.

Y cam nesaf oedd astudio yn y Coleg Diwinyddol, Aberystwyth, o dan ofal y diweddar Barchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts, Abergele, a graddiodd â gradd BD ym 1991. Gwahoddwyd ef yn hydref 1991 i gynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar y rhaglen Training in Mission, oedd yn golygu astudio am gyfnod yn Selly Oak, Birmingham, a threulio saith mis yn Jamaica gyda thim o un ar ddeg o bobl ifanc o bob cwr o'r byd. Bu'n ffordus hefyd i gael tymor yng Ngholeg Diwinyddol Unedig India'r Gorllewin.

Rhwng 1992 a 1995, bu'n astudio ymhellach ym Mangor, a graddiodd â gradd BMus (anrhydedd) gan arbenigo ar yr organ, y llais a chyfansoddi. Ordeiniwyd Robert ym mis Medi 1996 ym Moreia, Llangefni, a mawr obeithiwn mai ar Sadwrn, 18 Medi 2021, y cynhelir ei Gyfarfod Sefydlu, gan y bydd union 25 mlynedd oddi ar ddiwrnod yr ordeinio.

Ym 1996, derbyniodd alwad i fugeilio pump o eglwysi Cymraeg y Canoldir, sef Saron, Wolverhampton; Bethel a Loveday Street (A), Birmingham, Coventry a Rugby. Bu'n fawr ei barch yno ac yn hynod o weithgar fel bugail er bod hynny'n golygu teithio cryn bellter i ymweld.

Yn 2000 treuliodd gyfnod Sabothol yn bugeilio eglwysi Cymraeg y Wladfa. Yna, yn 2005, derbyniodd alwad i un o eglwysi prysura'r enwad, sef Capel y Groes, Wrecsam, yn olynydd i'r Dr Elfed ap Nefydd Roberts. Yn 2014 ychwanegwyd Capel St John Street, Caer, at yr ofalaeth, a bu'n fugail caredig a gofalus o'r radd gyntaf.

Ers 2019, bu'n gynorthwydd bugeiliol yn eglwysi Seion, Penbedw; Bethel, Penny Lane, a Bethania, Waterloo, a bu cydweithio hapus rhyngom. Rwy'n falch fy mod, ar ôl 53 mlynedd fel gweinidog yn Lerpwl, yn medru trosglwyddo'r praidd i ofal gweinidog dawnus sy'n awyddus i fugeilio a phregethu.



Llwyddwyd i greu gofalaeth newydd, gan ddod â dwy eglwys arall i gydweithio â chapeli'r glannau, sef Noddfa, Manceinion ac Altrincham.

Bu'n ffordus yn ei deulu. Mae'n briod â Suzanne, merch o Goed-llai, Sir y Fflint, sy'n gweithio fel Swyddog Gyrfaoedd gyda phobl ifanc a chanddynt anghenion arbennig. Mae hithau'n dysgu Cymraeg ac yn ddiagon gyda'r Bedyddwyr Saesneg dros y ffordd i gartref y teulu. Brafyw dod i adnabod y plant, sef Osian (16), Anna (10) ac Elis (8).

Fel un a fu'n fentor iddo, diolchaf am ei hynawsedd a'i gefnogaeth. Rwy'n ddigon hen i fod yn dad iddo, ac rwy'n hoffi credu fy mod yn dad yn y ffydd i Robert Parry, ac y cawn gydweithio am flynyddoedd lawer i ddod.

*D Ben Rees
Lerpwl*

Annwyl Olygydd,

Diolch i bawb am eu sylwadau ac am eu diddordeb yn lleoliad yr adnod 'Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu'. Daeth yr ymateb hwn i law yr wythnos hon. Tybed a oes rhagor o enghreifftiau o'r defnydd o'r adnod nad ydym yn gwybod amdanynt? Gadewch i ni wybod.

Annwyl olygyddion,
'Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu'

Mae plac pres gyda'r geiriau hynny'n ysgrifenedig arno wedi'i hoelio i bulpud Eglwys Gymraeg Canol Llundain, reit o flaen lle mae'r pregethwr yn sefyll. Cyflwynwyd y plac i Eglwys y Bedyddwyr, Castle Street, Llundain, gan Gymdeithas y Beibl trwy law ei chynrychiolydd, y Parchg Roy Weaver, yng nghyrrddau sefydlu'r Parchg Byron Evans yn weinidog ym 1988.
John Samuel

Newyddion

Ysgrifennydd newydd i Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy

Ysgrifennydd newydd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy o ddechrau mis Ebrill ydy Mrs Bethan Trenchard, Tŷ Mawr Llan, Ysbyty Ifan, Betws-y-coed, Conwy, LL24 0NS; ffôn 01690 770152 neu 07547 508453; e-bost bethantrenchard30@gmail.com.

Mae hi'n cymryd drosodd oddi wrth y Parch Eric Greene fel ysgrifennydd, er y bydd ef yn parhau fel ysgrifennydd y Cylch Pregethu ac yn Olygydd y Blwyddlyfr.



O Gefn Gwlad



Maddeuant

Na thymbwch am eiliad mod i'n gymwys i drafod yn fanwl destun mor fawr â hwn. Dydw i ddim, a falle mod i'n mentro wrth sôn amdano o gwbl, yn enwedig gan fod un o ganonau'r ffydd Gristnogol, sef ein bod i gyd wedi ein geni yn bechaduriaid mewn angen am faddeuant, yn rhywbeth yr wyf yn ei gael yn anodd iawn i'w dderbyn. Dwi'n credu, fel y crybwyllais o'r blaen, dwi'n meddwl, fod y potensial ym mhob un ohonom i bechu, a bod pawb ohonom sy yn ei oed a'i synnwyr yn euog o wneud hynny.

Ond ein geni yn bechaduriaid? Effaith y cwmp yn Eden, medden nhw sy'n credu'r ddamcaniaeth, yn seiliedig felly ar fytholeg. Ie ddim? Gwell gen i ddisgrifiad Rousseau o blentyn fel *noble savage* gyda'r posibilrwydd o fod yn un o'r ddau, neu'n gymysgedd yn wir.

'Rwy'n wych, rwy'n wael, rwy'n gymysg oll i gyd', meddai Williams Parry wedyn. Nes ati, 'dech chi ddim yn meddwl?

Ond beth bynnag eich cred, y mae maddeuant yn rhinwedd hollbwysig mewn bywyd. Hebdo, byddai cynnen ac anfelystra yn fwy rhemp yn ein byd nag y mae ar hyn o bryd. Mi wn am deuluoedd sy wedi eu holli oherwydd diffyg maddau, am frodyr a chwiorydd nad ydyn nhw'n gwneud dim efo'i gilydd

oherwydd rhywbeth ddigwyddodd yn goffennol, a'r rhywbeth hwnnw heb gael olew maddeuant wedi ei dywallt drosto.

Weithiau ceir pobol yn dweud y gwnân nhw faddau ond na wnân nhw byth anghofio. A yw peth felly yn faddeuant go iawn, tybed? Pa mor hawdd yw maddau sy'n gwestiwn arall. Beth am y rhieni hynny llofruddiwyd eu plentyn? Maddau i'r llofrudd? Hawdd i ni na chafodd y profiad ddweud y dylen nhw. Beth am y bomwyr sy'n lladd ugeiniau, weithiau gannoedd, gyda'u hymosodiadau? Maddau iddyn nhw?

Yr hyn wnaeth imi feddwl am y peth oedd dal sylw ar ran o ddeialog mewn drama deledu – *The Victim* – dro byd yn ôl. Ynddi y mae dyn a laddodd hogyn bach yn wynebu'r fam ac yn erfyn am ei maddeuant.

Y fam: Y mae yna rai pethau nad oes maddau iddyn nhw.

Y dyn: Ond dyna'r unig adeg y mae maddeuant yn golygu rhywbeth. Beth yw pwrpas maddau yr hyn sy'n hawdd ei faddau?

Cwestiwn digon teg, mae'n siŵr, cwestiwn a ofynnir yn y Beibl, ond cwestiwn anodd serch hynny. Anodd i bawb? Amhosib i bawb? Na.

Ar 8 Tachwedd 1987 yn Enniskillen, Iwerddon, fe daniwyd bom yn ystod gorymdaith Sul y Cofio, bom a laddodd nifer o'r trigolion gan gynnwys Marie, nyrs oedd wedi mynd yno efo'i thad. Y tad oedd Gordon Wilson. Fe oroesodd ef y digwyddiad erchyll, ac un o'r pethau cynta wnaeth o wedi iddo ddod ato'i hun oedd maddau i'r bomwyr, sef yr IRA, oedd wedi gosod y ddyfais laddodd ei ferch.

Mynnodd nad oedd dial i fod gan na fyddai dial yn dod â'i ferch yn ôl. Credai y dylai'r rhai oedd yn gyfrifol gael eu cosbi wrth gwrs, ond ei eiriau oedd: 'I bear no ill will, I bear no grudge.' Cafodd ei ganmol yn hael am ei agwedd; cafodd ei feirniadu'n hallt hefyd. Ond daeth ei agwedd yn adnabyddus fel 'Ysbryd Enniskillen' fu'n sylfaen i'r broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon.

Beth oedd cyfrinach Gordon Wilson, y perchennog siop ddillad yn y dref honno a'i allu anhygoel i faddau'r gwaethaf allai fod wedi digwydd i unrhyw dad? Pwy a wŷr? Anodd credu iddo wneud y fath beth, ond fe wnaeth!



Gordon a Joan Wilson

O.N. Anghofiais grybwyll fod Gordon Wilson yn Gristion, yn aelod blaenllaw a gweithgar yn ei eglwys Fethodistaidd leol. Dwi'n awgrymu dim, dim ond nodi ffaith!

Elfyn Pritchard
Y Sarnau

ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

ACTAU'R APOSTOLION

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd

– Yr Eglwys Fore

Gwers 42 – Paul yr Apostol

Gweddi

Deuwn, Arglwydd, gan ddiolch am fywyd a thystiolaeth Paul. Boed i'n myfyrio heddiw weld dy gariad di ym mhob gweithred o'i eiddo ac i'th wirionedd di fod yn ei eiriau. Goleua ein llwybrau a'n meddyliau. Amen.

Darllenid

Actau 9:1–31

Cyflwyniad

Un o gymeriadau amlycaf y Testament Newydd (ar wahân i Iesu a'i gylch agosaf o ddisgyblion) oedd Saul o Darsus. Nid oedd yn un o'r deuddeg disgybl, ac ni welodd Iesu erioed yn y cnawd. Ganwyd ef yn Nharsus, a dyfalir i hynny fod tua'r un amser â geni Iesu. Tybir iddo farw drwy gael ei ddienyddio o gwmpas 64 OC. Derbyniodd hyfforddiant wrth draed Gamaliel, athro enwog yn Jerwsalem, a dysgodd y grefft o wneud pebyll yn Nharsus. Ymddiriedwyd iddo'r dasg o ddal y Cristnogion a'u dwyn i lys gan brif offeiriaid Iddewiaeth. Ef oedd un o elynion amlycaf y Cristnogion cynnar.

Serch hynny, dangosodd ei brofiad ar y ffordd i Ddamascus fod Iesu yn medru troi'r erlidiwr yn apostol. Newidiodd ei enw o fod yn Saul i fod yn Paul, a chyfeirir bedair gwaith at ei dröedigaeth yn y Testament Newydd; yn amlwg, roedd y profiad yma'n sylfaenol a chanolog i'w weinidogaeth. Teithiodd yn helaeth, gan wneud tair taith yn sefydlu eglwysi ac un, o dan oruchwyliaeth milwyr

Rhufeinig, i Rufain. Pregethai am Iesu bob cyfle posibl, gan gynnwys ei gyfnod dan warchodaeth filwrol yn Rhufain. Ysgrifennai'n helaeth hefyd, a chynhwysir 13 o'i lythyron yn y Testament Newydd, er y bydd yr esbonwyr yn egluro bod darnau o lythyron eraill wedi eu gweu i mewn i'r enghreifftiau hyn. Mae'n debygol iddo lunio eraill hefyd a aeth ar goll. Heb os, roedd yn ddylanwad ar sefydlu'r Eglwys Fore, a bu ei gyfraniad fel diwinydd yn ddylanwadol ar yr Eglwys ar draws y canrifoedd. Bydd angen darllen ei lythyron yng nghyd-destun ei gyfnod, gan gofio'i hyfforddiant fel ysgolor Iddewig.

Myfyrdod

Dywedir bod Luc wedi ysgrifennu Llyfr yr Actau yn olrhain hanes yr Eglwys Fore er mwyn i ddisgyblion y ffydd wybod mwy am yr hanes cynnar. Hawlir hefyd ei fod yn dymuno dangos i'r darllenwyr fod cyfraniad Paul cymaint â chyfraniad Pedr. Cafodd Luc ddigon o amser yng nghwmni Paul ac adwaenai ef yn dda. Rhaid fod Paul yn arwr i Luc, ac i bersonoliaeth a phregethu'r apostol adael argraff fawr ar 'y meddyg da'. *Pwy sydd wedi gadael argraff annileadwy arnom ni, a'n cynorthwyo i gredu yn Iesu Grist a'i ddilyn yn llwyr?*

Roedd Paul yn bregethwr o argyhoeddiad ac yn deall pobl yn dda. Roedd wedi dehongli'r Hen Destament yng ngoleuni Crist, ac er ei fod yn gweinidogaethu i'r cenedloedd, mae ei ddelweddau a'i werthoedd Iddewig i'w gweld yn y ffordd y mae'n sôn am Iesu. Er mor gryf oedd y dylanwadau Iddewig arno, roedd dylanwad Iesu arno yn llawer

mwy. Efallai iddo weld ehangder Teyrnas Dduw yn gliriach na'r un cymeriad arall yn yr Eglwys Fore. *Pa mor eang y gwelwn ninnau ein byd a'i bobl, ac a oes ynom gonsŷrn a chariad brawdol at y ddynoliaeth yn ei chyfanrwydd? *A allwn ganu'r emyn sy'n sôn fod 'pob mab i ti yn frawd i mi, O Dduw', fel y gwnaeth Paul? *Roedd yn gwbl ymroddedig i Grist, ac am sôn amdano wrth bawb. Roedd pob man yn bulpud iddo, a phob person yn debygol o fod yn un i'w ennill i Grist. *A welwn ninnau'r rhai a gyfarfyddwn o ddydd i ddydd fel darpar gredinwyr? *A fyddem yr un mor barod â Phaul i weld pobl o bob cefndir, hanes a haen gymdeithasol yn rhannu'r bara a'r gwin â ni, neu a fyddem yn anghyfforddus gyda rhywrai a fyddai'n amlwg yn wahanol i ni?*

Gweddi

Arglwydd Iesu, diolch am y modd y gwnaethost ti droi'r Iddew a erlidiai bobl y ffydd i fod yn apostol. Gwared ni rhag unrhyw ragfarn, a bydded inni weld dy werthoedd di yn y sawl sy'n dod o gefndir gwahanol i ni. Maddau i ni am ein rhagfarnau hiliol a chymdeithasol. Boed i bob sgwrs ag eraill droi i sôn amdanat ac i bob gweithred gennym fod er dy ogoniant. Amen.

Trafod ac ymateb

- Ceir pum cwestiwn wedi eu harwyddo â ** yn y myfyrdod uchod. Beth am fynd drwyddyn nhw fesul un yng ngoleuni tystiolaeth yr Apostol Paul i Iesu Grist?
- A oes cyfle i chi fendithio rhywun o gefndir gwahanol i'ch un chi heddiw, a gwneud hynny fel arwydd o gariad Duw yng Nghrist tuag atynt?

S4C

Nos Sul, 25 Ebrill, am 7.00yh – Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Ar y rhaglen, bydd Nia yn cwrdd â grŵp garddio cymunedol yn Silian sy'n tynnu pobl at ei gilydd ac yn llwyddo i godi ysbryd bro gyfan.

Diolchwn am y ddarpariaeth o wasanaethau a gafwyd ar y teledu dros y cyfnod clo diwethaf. Daeth y trefniant wythnosol i ben, gydag addewid o oedfaon achlysurol i ddod. Os bu ichi werthfawrogi'r ddarpariaeth, yna beth am anfon gair i fynegi hynny at unrhyw un yn swyddfeydd S4C neu ar-lein ar eu gwefan: www.s4c.cymru/cy/cysylltu--ni, neu ar e-bost: gwifren@s4c.cymru

BBC radio cymru

Sul, 25 Ebrill, Caniadaeth y Cysegr

am 7:30yb a 4:30yp

Elen Ifan fydd yn cyflwyno detholiad o emynau o gymanfaoedd Bedyddwyr Gogledd Penfro a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf

Gwasanaeth Radio Cymru am 12.00yp dan ofal y Parch Rhodri Glyn, Llansannan

Gweddio dros ddiogelwch pobl Myanmar

Cafwyd protestiadau torfol cyson ar draws Myanmar ers i'r fyddin gipio rheolaeth o'r wlad ar 1 Chwefror. Cafodd yr arweinydd etholedig, Aung San Suu Kyi, ac aelodau ei phlaid, y Gynghrair Genedlaethol dros Ddemocratiaeth (NLD), eu cadw yn y ddalfa. Yr un diwrnod fe ffordd miloedd o deuluoedd o Gristnogion o bentrefi talaith Karen i'r jungl cyfagos. Oddi ar hynny mae cannoedd o bobl, gan gynnwys plant, wedi cael eu lladd a miloedd wedi ffoi o daleithiau eraill hefyd.

Prif grefydd y wlad yw Bwdiaeth. Ond mae yna lawer o grwpiau ethnig yn y wlad, gan gynnwys Cristnogion a Mwslimiaid, yn ogystal â Mwslimiaid Rohingya. Diolch i Gymorth Cristnogol am wneud i ni wrando ar storïau erchyll y Rohingya, sydd wedi bod yn ffoi o Myanmar ers blynyddoedd erbyn hyn oherwydd y modd y maent yn cael eu herlid gan y wlad. Ceir canran fechan o Gristnogion ymhlith y rheiny hefyd, a'u sefyllfa'n enbydus oherwydd y ffoi gwreiddiol a'u bod wedi'u hamddifadu o adnoddau prin bellach oherwydd eu crefydd.

Mae pobl y Chin, y mwyafrif ohonynt yn Gristnogion, am y ffin ag India yn teimlo effaith y trais hefyd wrth i hwnnw barhau tuag at y lleiafrifoedd ethnig. Yn wir, mae gwreiddiau Eglwys Bresbyteraidd Myanmar i'w cael ymhlith y bobl hyn ac yn deillio o Gymru. Cyrhaeddodd yr efengyl fryniau Lushai (Mizoram erbyn heddiw) yng Ngogledd-ddwyrain India yn 1894, a chyrrhaeddodd D E Jones yno o Landderfel, ger y Bala, ym 1897. Daeth talaith bryniau'r Chin yn faes cenhadol i genhadon o Mizoram yn 1956. Yno, yn Kalay, y mae pencadlys yr eglwys hyd heddiw.

Fe fu teithiau cyfnewid rhwng ieuencid Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Myanmar yn nechrau'r 90au. Rydym yn parhau yn ein cymundeb â'n gilydd a hynny drwy fod yn gyd-aelodau o CWM (Cyngor Cenhadaeth Fyd-Eang) a'r WCRC (World Communion of Reformed Churches).

Clywsom gan ein ffrindiau ym Mizoram fod nifer o ffoaduriaid yn croesi ffiniau Gogledd-ddwyrain India drwy jungl a thref Champai yng ngogledd-ddwyrain y dalaith. Adroddwyd ar newyddion y BBC am y modd

yr oedd rhai aelodau o'r fyddin yn ffoi yno hefyd am eu bod yn gwrthod defnyddio'u harfau ar eu pobl eu hunain.



Cyfeillion yn cludo arch un o'r protestwyr a saethwyd yn farw ar 28 Mawrth ynghanol ymosodiad gan y fyddin ar brotestwyr yn erbyn y *coup* milwrol (Llun: Facebook)

Lladdwyd o leiaf 11 o bobl ac anafwyd 10 arall mewn ymosodiadau ar brotestwyr yn Kalay ar 28 Mawrth, ddiwrnod ar ôl i luoedd y llywodraeth ladd dros 110 o sifiliaid ledled Myanmar. Hwn oedd y diwrnod y collwyd y nifer mwyaf o fywydau ers i'r *coup* milwrol ddymchwel y llywodraeth etholedig ar 1 Chwefror.

Ymhlith y protestwyr y mae athrawon, cyfreithwyr, myfyrwyr, swyddogion banc a gweithwyr y llywodraeth. Mae'r fyddin wedi gosod cyfyngiadau ar bawb ac yn hollol ddiidrugaredd tuag at y protestwyr a phwy bynnag, yn cynnwys plant, sy'n dod ar eu traws, gan ddefnyddio arfau brwnt megis canonau dŵr, bwledi rwber a bwledi go iawn i geisio gwasgaru'r protestwyr.

Anfonodd y Parch Marcus Robinson, Llywydd EBC, lythyr ar y pryd yn mynegi ein bod ninnau fel eglwys yn cydsefyll ac yn dyrchafu ein chwiorydd a'n brodyr yn Myanmar mewn gweddi. Rydw innau'n cyfathrebu yn ddyddiol gyda grŵp o arweinwyr byd-eang sy'n cadw mewn cysylltiad ac yn cynnal ein cyfeillion yno.

Gofynnwn i chithau barhau i weddio dros y sefyllfa druenus hon: am ddiogelwch i'r Cristnogion a phawb sy'n ffoi ac mewn perygl ar hyn o bryd. Galwch ar yr Arglwydd i droi calonnau'r fyddin ac arweinwyr y gwrthryfel tuag at drugaredd a llwybrau heddwch.

Nan Wyn Powell-Davies

Gweddi dros bobl Myanmar

Dduw nad yw dy gariad wedi ei gyfyngu gan unrhyw ffiniau,
Rho ras a dewrder inni ymateb ynghanol ymryson a gormes.

Agor ein meddyliau i ddirnad y boen a ddygir gan bobloedd Myanmar,
Agor ein llygaid i dy weld di ym manau cythryblus ein byd,
Agor ein breichiau i gofleidio ein chwiorydd a'n brodyr sy'n goddef colledion a chaledi.

Gweddiwn dros ein byd, ein dynoliaeth, ein heddwch.
Ym mhoen y rhai a arteithir ac yn unigrwydd y ffoadur,
Yn haerllugrwydd y cryf ac yn niogelwch y pwerus,
Tro ni eto, Arglwydd, i yfed cwpan iachawdwriaeth
Fel y byddwn farw i ni ein hunain a byw i ti.

Arglwydd, helpa ni i gofio heddiw
Nad oes unrhyw beth na allwn ei wynebu gyda'n gilydd mewn undod, gweddi a gweithred.
Boed i'th blant i gyd, waeth beth fo'u hunaniaeth ethnig, eu cred neu eu rhyw,
Ddod o hyd i urddas a bywyd yn ei holl gyflawnder – oherwydd fe gredwn ni mewn Bywyd Cyn Marwolaeth.

Amen

(Gweddi gan Ramani Leathard, pennaeth Cymorth Cristnogol yn Asia, sy'n ymddangos yn y llyfr *Rage and Hope* sydd newydd gael ei gyhoeddi i ddathlu pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 75 oed)

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Ymateb i gariad, profi bywyd

Emyn 488: 'Am Iesu Grist a'i farwol glwy'

Cyflwyniad

Yr wythnos diwethaf gwelsom fod loan am i'w 'blant' (1 loan 2:18; 3:7; 3:18), ei 'gyfeillion annwyl' (3:21; 4:7), wybod ac adnabod arwyddion ffydd ddilys. Nodwyd tair elfen:

- cred a ffydd newydd – adnabod Duw yng Nghrist drwy'r Ysbryd Glân (1 loan 4:13–16)
- cariad newydd at ei bobl, sef ei eglwys (1 loan 2:7–11)
- cyfeiriad newydd – ydyn ni'n caru sancteiddrwydd? (1 loan 2:1–6)

Pan geir y tair elfen gyda'i gilydd, ceir tystiolaeth o realiti'r cyfnewidiad a blannwyd ynom. A phan drown at ein darlleniad heddiw, pa nodweddion yn benodol (o'r rhestr uchod) mae loan yn cyfeirio atynt yma?

Darlleniad

1 loan 3:11–24

Myfyrdod

Ym mhob cylch o fywyd gosodwn 'brawf' ar nwyddau er mwyn bod yn sicr o'u diogelwch.

Er enghraifft, cyn i drwch y boblogaeth gael eu brechu rhaid oedd i'r brechlyn gael ei 'brofi' i weld a oedd yn ddiogel ac yn ein hamddiffyn o gwbl. Mae'n rhaid wrth 'brawf' MOT yn flynyddol i brofi diogelwch ein moduron. Rydym hefyd, yn ddiarwybod, yn 'profi' geiriau a gweithredoedd ein gilydd: 'Fydech chi'n prynu car ail-law gan ...?' Ydych chi'n medru ymddiried yng ngair neu gymeriad y person rydych yn ymwneud ag ef neu hi?

Gwyddom y gall pasio'r 'prawf' fod yn wahaniaeth rhwng byw a marw.

Os yw hynny'n wir mewn pethau daearol, gymaint mwy y mae hyn yn wir yn ein hymwneud â phethau tragwyddol.

O ddarllen ei lythyr, gwelwn fod loan am i ni sylweddoli bod a wnelo'r profion hyn â bywyd tragwyddol ei hun. Mae'n ymwneud â'r gwir a'r gau, goleuni a thywyllwch, bywyd neu farwolaeth.

Rydym oll yn ddigon hirben i ddeall nad yw pob addewid a wneir yn wir, pob honiad yn ddilys, pob un sy'n mynnu ei fod yn dweud y gwir yn ddibynadwy. A gwyddom oll beth yw cael ein camarwain, neu ein twyllo, hyd yn oed gan rywun oedd yn edrych ac yn swnio'n gredadwy.

O'n cwmpas, fel yn nyddiau loan, ceir myrdd o grefyddau gwahanol, dwsinau

o athrawon. Rydym yn byw yng nghanol lobsgows o syniadau, a phawb yn honni fod ganddynt ryw ddoethineb neu wirionedd neu fywyd i'w gyfrannu i'n lles.

O fewn cylchoedd eglwysig ceir myrdd o leisiau sy'n cynnig dehongliadau newydd, neu fynegiant newydd, neu brofiadau newydd. Gan fod llawer ohonynt yn croes-ddweud ei gilydd, erys y cwestiwn i ni: pa brawf neu brofion syml allwn ni eu defnyddio i'n galluogi i adnabod bywyd go iawn, i wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau, rhwng goleuni a'r gwyll a thywyllwch?

Diben loan oedd galluogi proffeswyr ffydd yn eu cerddediad a'u dealltwriaeth er mwyn eu diogelwch tragwyddol.

Mae loan yn cynnig y canllawiau canlynol i'n cynorthwyo:

- Canllaw gwybodaeth** h.y. bod yr hyn a ddywedir ac a dderbynnir gennym yn gydnaws â'r 'genadwri a glywsoc'h o'r dechrau' (adn 11; gweler hefyd 1 loan 1:1, 2, 3, 5; 2:7, 24.). Un o nodweddion ein hoes dechnolegol ni yw ein bod yn tybio bod y ddyfais 'newydd', ddiweddaraf yn dda, yn well. Golyga hefyd felly fod 'hen' yn golygu bod rhywbeth yn perthyn i hanes, i oes a fu, a'i fod oherwydd hynny'n cael ei ystyried ar y cyfan yn ddiwerth.

Ar hyd hanes yr eglwys, fodd bynnag, ystyriwyd mai ei hymlyniad i'r hyn oedd 'o'r dechrau' oedd ei diogelwch. Byddai bod yn 'newydd' yn cael ei ystyried fel gwendid neu'n feirniadaeth. Er enghraifft, adeg y Diwygiad Protestannaidd roedd y Diwygwyr yn awyddus iawn i ddangos y gellid olrhain llwybr y ffydd oedd yn cael ei aildarganfod ganddynt yn glir ar hyd canrifoedd cred a'i fod yn deillio o'r Ysgrhythurau.

- Profiad** Calon yr argyhoeddiad a'r profiad Cristnogol yw mai cariad yw Duw. Dyma'i gymeriad cyn bod 'dechrau'. Cariad perffaith, cariad glân, cariad anorchfygol, cariad sy'n dod atom lle rydym ond sydd byth yn ein gadael yn lle roeddem! Cariad ydyw nad yw'n gadael i gasineb neu wrthwynebiad ei elynion ei ddiffinio neu ei gyfyngu. Cariad tuag at y rhai anhawddgar ydyw, cariad sydd am faddau bai'r troseddwy. Cariad ydyw sy'n rhoi'r cyfan er mwyn eraill ac sy'n gofyn am ymateb o gariad cyflawn.

Dyma'r alwad i brofi cariad a sail y gorchymyn i garu.

- Cymdeithas** Mae canolbwynt ein ffydd yn ei hanfod yn drindodaidd. Nid 'Duw' fel bod annelwig mohono, ond Duw sy'n datguddio'i hun fel Tad (2:1–2), yn 'ei Fab ef Iesu Grist'. Daw'r wybodaeth yn brofiad o Dduw wrth iddo 'aros ynom ni: trwy'r Ysbryd a roddodd ef inni' (3:24). Yr un Duw mewn cymundeb a chymdeithas berffaith yw sail a phatrwm ein hymwneud â'n gilydd fel cyd-aelodau.
- Ymarferol** Rydym i 'gredy yn enw ei Fab ... a charu'n gilydd, fel y rhoddodd ei orchymyn i ni', meddai (adn 23). Caru Iesu Grist a charu ei bobl, ein 'cyd-aelodau', yn ymarferol, yw'r dystiolaeth o realiti gras Duw a'i fywyd ynom. Mae peidio â charu yn ffurf o gasáu, ac yn datgelu nad oes bywyd ynom. Nid sail ein gobaith yn unig yw croes Iesu Grist a'i aberth drosom (adn 16), ond dyma hefyd batrwm cariad ymarferol. Os mai ar y groes y datguddiwyd perffeithrwydd gweithgarwch cariad Duw, caiff y cariad hwn ei brawf gweithredol yn ein bywydau ni, mewn bywydau o ufudd-dod ymarferol (adn 17).

Tybed, pe bai'r 'profion' yma'n cael eu gosod arnom gan aseswr annibynnol, a fyddem yn pasio'r meini prawf i gadarnhau ein proffes ein bod yn ddilynwy'r Iesu Grist?

Gwedd

Hollalluog Dduw, datguddiaist dy hun i ni yn dy Fab Iesu Grist fel yr Un sy'n llawn gras a gwirionedd. Ym marw aberthol dy Fab datguddiwyd i ni dy gariad anfeidrol a'th ffyddlondeb difesur. Cofiw'n sut y daethost ar 'dy newydd wedd' at dy ddisgyblion ac iddynt fethu dy adnabod. Gwyddom dy fod yn sefyll yn ein plith. Caniatâ i ni'r fraint o'th adnabod heddiw fel 'fy Arglwydd a'm Duw'. Llanw ein calonnau ag ymwybyddiaeth newydd o'th gariad fel y byddwn yn llawn o obaith drwy dy Ysbryd Glân sy'n trigo yn dy bobl. Llanw'n gwefusau â'th glod, a boed i'n bywydau fod yn fynegiant o'n hufudd-dod ac yn ymateb i'th ras. Dwg ni yn derfynol i'th deyrnas dragwyddol, drwy Iesu Grist, Amen.

Emyn 686: 'O Iesu mawr ...'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)